# GWLAD BEIRDD A CHERDDORION

## ANEIRIN LEWIS a'r Dyddiadur Llenyddol

YNG NGHYMOEDD diwydiannol hen siroedd Morgannwg a Mynwy, ffynnai bywyd llenyddol ac eisteddfodol llewyrchus iawn trwy gydol y ganrif ddiwethaf. Yn wir, erbyn ail hanner y ganrif, yr oedd y beirdd, y llenorion a'r cantorion gyn amled â'r mwyar ym mis Medi!

Yn 1872, gwelodd un o gyhoeddwyr y De y byddai'n werth mentro ar ddarparu dyddiadur poced yn unswydd at wasanaeth eisteddfodwyr ac ymddangosodd *Dyddiadur Llenyddol, neu Lawlyfr yr Eisteddfodwyr am 1873*. Hyd y gwn, dyma'r unig dro y cyhoeddwyd ef.

Y mae'n llyfryn sy'n mesur tua phum modfedd a chwarter o hyd wrth dair modfedd a hanner o led, poced y tu mewn i'r clawr blaen, llabed â gwely i gadw pensil ynghyd â thafod i gau'r dyddiadur wrth y clawr cefn.

Ceir 112 o dudalennau rhifedig sy'n ymrannu fel hyn: tt.9-61, dyddiadur am ddeuddeng mis, wythnos ar bob tudalen a cholofn £.s.c. ar y dde – hwylus iawn i gystadleuwyr gadw cyfrif o'r gwobrau ariannol a enillent neu i athrawon canu gofnodi taliadau eu disgyblion! tt.3-8 a 6-75, y wybodaeth ddefnyddiol arferol a gynhwysid mewn dyddiaduron, gan gynnwys enwau golygyddion y newyddiaduron Cymraeg; tt.76-90, 'Ol-Drem ar 1872 yn Llenyddol'; tt.91-98, 'Marw-Gofion'; tt.99-111, 'Cofres o Enwau a Chyfeiriadau Beirdd, Llenorion, a Chantorion Cymru'.

Yna, ceir 40 o dudalennau gwynion gweili, lle y gallai'r perchennog gofnodi unrhyw beth a fynnai, ac os yn fardd, ysgrifennu ffrwyth ymweliadau'r Awen!

* * *

PERCHENNOG y copi o'r *Dyddiadur* sydd yn fy meddiant i oedd Eos Wyn (Edward Young, 1841-92), y bardd a'r cerddor o'r Alltwen, Pontardawe – gŵr a gyflawnodd lawer o waith da er gwaethaf afiechyd poenus a'i cyfyngodd i'w wely a'i gadair am fwy na hanner ei einioes.

Cofnododd bob math o wybodaeth ddiddorol o ddydd i ddydd yn ystod 1873, ac y mae'r deugain tudalen yn y cefn yn llawn o gopïau o'i waith ef ei hun yn ogystal ag o waith beirdd eraill.

Eithr nid dilyn trywydd sylwadau a cherddi Eos Wyn yw amcan y nodiadau hyn ond sylwi yn hytrach ar gynnwys yr adrannau printiedig. Enwir pedwar golygydd ar y teitl, sef: Thomas Morgan (Llyfnwy), Maesteg; B.A. Griffiths, Cwmafon; J. Spinther James, Llandudno; a Ll. Griffiths (Glan Afan), Cwmafon. A'r argraffnod yw: 'Cwm-Afon': Cyhoeddwyd ac Argraffwyd, Gan Griffiths and Sons.'

Yn y 'Rhagymadrodd' (t.2) pwysleisir mai peth newydd yw "Dyddiadur Llenyddol" a thynnir sylw arbennig at y ffaith y 'gwelir ynddo GOFRES helaeth o enwau a chyfeiriadau Beirdd, Llenorion, a Chantorion Cymru.'

Y mae'r gofres hon yn ddiddorol dros ben. Dosberthir yr enwau o dan drefi a phentrefi'r gwahanol siroedd, fel y dengys y llun o'r tudalen gyntaf.

Nid yw siroedd Penfro, Ceredigion, Brycheiniog na Maesyfed yn y gofres – nid am nad oedd beirdd a chantorion yn byw yno, yn sicr, ond am na lwyddwyd, o bosibl, i gorlannu'r enwau. Yn wir, ymddiheurir na buasai'r rhestr yn fwy cyflawn; 'ond y mae ei chasglu mor gyflawn ag y mae, wedi costio i ni drafferth fawr i ysgrifennu a theithio.'

Gan mai ym Morgannwg y cyhoeddwyd y *Dyddiadur*, y mae'n naturiol fod y gofres yn fwy cyflawn am y sir honno a cheir llu o enwau o dan leoedd megis Aberdâr, Aberpennar, Trecynon, Castell-nedd, Cwmafan, Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr, Pontypridd, Pontardawe, Treherbert, Treorci, Ystalyfera, &c.

Y dref sy'n cipio'r llawryf am y nifer mwyaf yw Merthyr Tudful, lle rhestrir 21 o feirdd, 10 llenor a 23 o gantorion. Yno y ceir enw Watcyn Wyn, oherwydd ei fod yn mynychu 'Tydfyl School' yn 1872, a chyfeiria yn ei *Adgofion* (t.77) at 'lawer awr ddifyr' a fwriodd yng nghwmni beirdd a llenorion Merthyr, ac y mae'n enwi nifer ohonynt.

Sonia hefyd fel yr oedd 'yn ennill ambell wobr mewn eisteddfod i gael arian poced.' Y mae rhif uchel y cantorion ym Merthyr, megis yn Aberdâr a mannau eraill, yn dangos fel yr oedd y gân a cherddoriaeth gorawl yn dod yn fwyfwy amlwg yn y bywyd eisteddfodol.

Wrth fwrw golwg ar y gwahanol siroedd a chraffu ar rai o'r enwau barddol gogleisiol, megis Morgrugyn Gwent a Morgrugyn Morganwg, profiad dymunol i Ddeheuwr yw sylwi fod mwy o feirdd yn Sir Fynwy nag yn Sir Fôn, er nad yw rhestr Mynwy yn cynnwys enw Islwyn, bardd mwyaf y cyfnod!

Ac y mae'n ddiddorol gweld ar dudalen arall mai Islwyn, â'i awdl 'Moses', a gipiodd y Gadair yn Eisteddfod Gadeiriol Môn yng Nghaergybi ar Orffennaf 30ain, 1872.

* * *

Y MAE dwy adran sylweddol arall yn y *Dyddiadur* sy'n arbennig o ddiddorol. Yn gyntaf, 'Ol-Drem ar 1872'. Yn yr adran hon, y bywyd llenyddol ac eisteddfodol yn unig a ymrdinir ag ef. Fel rhagymadrodd, clodforir yr 'Eisteddfod – un o sefydliadau Llenyddol hynaf yr holl fyd adnabyddus' – a honnir mai egwyddor *cystadleuaeth*, 'ffurf ag sydd yn perthyn yn arbennig (sic) i'r genedl' oedd y tu ôl i *Agricultural Shows* y Saeson, ac erbyn hynny hefyd 'yn cael ei mabwysiadu yn ei chyfanswm gan genedl y Saeson er dwyn yn mlaen ddosbarth o gyfarfodydd Cerddorol Cenedlaethol ...', a chyfeirir at yr "Eisteddfod Seisnig" a gynhaliwyd yn y Palas Grisial yn Llundain yn ystod wythnos gyntaf Gorffennaf 1872 pan enillodd Côr Undebol Deheudir Gymru, *gweithwyr cyffredin* o dan arweiniad *gof*, sef Caradog (Griffith Rhys Jones, 1834-97) y brif wobr o gwpan aur gwerth mil o bunnau.

Ac y mae'r awdur yn mynd i hwyl wrth draethu fel yr oedd pedwar neu bump o gorau eraill a fwriadai gystadlu wedi ffoi o'r maes 'mewn anobaith' ar ôl clywed Côr Caradog, 'yn *rehearso*' boreu dydd y gystadleuaeth.'

Am y gystadleuaeth ei hun, dywed: 'Canodd y Cymry mor deilwng fel yr ennillasant, nid yn unig yr Wobr Hèr, ond y ganmoliaeth uwchaf hefyd gan y beirniaid, ac edmygedd fwyaf brwdfrydig y byd cerddorol. Ni ennillodd gweithwyr unrhyw wlad y fath anrhydedd erioed o'r blaen. Felly, dyma ffaith fawr yn hanes cerddoriaeth yn Mhrydain – ar ol i'r Saeson ymddarostwng i fenthyca oddiar y Cymry y meddylddrych am, a'r enw o, Eisteddfod, cawsant wedi hyny sefyll i edrych ar y Cymry yn anturio yn eofn i'w canol, a chipio y llawryf oddiarnynt gyda cherddoriaeth aruchel Handel a Bach, gan ei ddwyn adref i "Wlad y Gân".'

Yna, rhoddir testun 'Cân Ddifyr Ddisgrifiadol' Watcyn Wyn ar 'Ymweliad y Cor Cymreig a Llundain' (15 pennill), cerdd a enillodd iddo'r wobr gyntaf yn Eisteddfod Alban Elfed Aberdâr yn 1872.

Yr oedd camp 'Y Côr Mawr' wedi cipio dychymyg y genedl ac yn achos balchder cenedlaethol, ac wrth gwrs, ailadroddwyd y gamp yn 1873, a'r unig gofnod sydd gan Eos Wyn yn y dyddiadur am Orffennaf 11 a 12, 1873, yw: 'Enillodd "Cor Mawr Deheudir Cymru" yr her wobr yn y Crystal Palace dan arweiniad Caradog. Pawb drwy Gymru yn falch fod Cymru wedi buddugoliaethu.'

* * *

Y MAE'R 'Ol-Drem' yn myned ymlaen i nodi fod 1872 wedi bod 'yn hynod gynnyrchiol mewn Eisteddfodau o bob math, o'r cyfarfod llenyddol anhymhongar, hyd at yr Eisteddfod Gadeiriol fwyaf rhwysgfawr a mawreddog, yr hyn a brawf bod Cymru heddyw yn brif nawddle awen a chân mor wirioneddol ag ydoedd yn nyddiau Hywell Dda.'

Ceir adroddiadau llawn o'r prif eisteddfodau a gynhaliwyd yn y De a'r Gogledd gan enwi'r llywyddion, yr arweinwyr, y beirniaid, testunau'r cystadleuthau, maint y gwobrau ac enwau'r buddugwyr yn unigolion, partïon a chorau. Y mae'r adroddiadau hyn yn ddiddorol ac yn ddrych o drefn ac arferion eisteddfodau'r cyfnod.

Gorffennir yr 'Ol-Drem' ag adroddiad o 'Gymanfa Undeb Gerddorol Dinbych, Fflint a Meirion, a gynhaliwyd yn Mharc Wynnstay, Awst 26. "Llywyddion:- Syr Watkin W. Wynn, a Mr Barnes, Ieu., Quinta. Arweinid y gweithrediadau gan y Parch J. Peter, Bala; a'r gerddoriaeth gan Mr B.M. Williams, Ruthin; tra y chwareuai Alaw Maelor ar yr *Harmonium*. Er fod yr hin yn anffafriol daeth lluaws mawr yn nghyd, ac awd trwy y rhestr ganlynol o donau, anthemau a chydganau, gyda llawer o fedrusrwydd (*sic*) a boddhad".'

Yna, enwir 27 o eitemau, gan orffen fel hyn: "Y mae y gymanfa gerddorol, er nad yw ond pedair blwydd oed, wedi dyfod yn allu mawr yn mhlith yr Annibynwyr, yn y Gogledd, ac mae'n sicr o gario effeithiau gwir ddaionus ar gerddoriaeth y cyssegr."

* * *

YR ADRAN arall yw 'Marw-Gofion', lle ceir ysgrifau Coffa da am rai o ffigurau amlwg y bywyd diwylliannol Cymraeg yn Ne Cymru a fu farw yn 1872, sef Pencerdd y De (Llewelyn Williams, 1822-72), Nefydd (William Roberts, 1813-72), y ddau o Flaenau Gwent; Carw Coch (William Williams, 1808-72), Aberdâr; Meudwy Glan Elai (Evan Richards, 1803-72), y Porth, Rhondda; Gwilym Mai (William Thomas, 1807-72), Caerfyrddin, ond brodor o Gwm Gwendraeth ac awdur 'Cân o Glod i Lo Pontyberem' a enillodd wobr iddo yn Eisteddfod Llanelli yn 1856.